



Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Testun

Gorffennaf 2019

Papur Testun 5: Cyfleusterau Cymunedol

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/rldp Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	3
2	Pwrpas y Papur Testun hwn	3
3	Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI)....	3
	3.1 Cenedlaethol.....	3
	3.2 Rhanbarthol	7
	3.3 Lleol.....	7
4	Polisi CDLI – Y Sefyllfa Bresennol	9
5	Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu	9
6	Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau.....	9
	6.1 Papur Cefndir 30: Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Rhandiroedd	10
	6.2 Papur Cefndir 31: Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Claddfeydd	10
	6.3 Papur Cefndir 44: Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol.....	10
	6.4 Papur Cefndir 45: Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg.....	10
7	Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol.....	10
8	Polisïau a Chynigion Defnydd Tir Posibl	11
9	Yr Angen am Sail Dystiolaeth Bellach.....	12
10	Casgliad	12
11	Atodiad 1: Polisïau CDLI Presennol	13

1 Cyflwyniad

Y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yw'r cynllun defnydd tir cyntaf a mwyaf blaenllaw sy'n nodi cyfleoedd i ddatblygu ar gyfer safleoedd penodol mewn ymateb i anghenion y gymuned am ragor o dai, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae hefyd yn ceisio cynnal, amddiffyn a gwella lle bo hynny'n briodol, yr agweddau hynny ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol sy'n bwysig wrth ddiffinio ansawdd a sensitifrwyd y lleoedd rydym yn eu gwerthfawrogi, eu mwynhau, symud drwyddynt, a byw ynddynt. Nod y CDLI yn y pendraw fydd darparu datblygu cynaliadwy.

Mae'r CDLI yn gerbyd sy'n caniatáu'r Cyngor i ddiffinio ei flaenoriaethau twf a datblygu allweddol a bydd yn darparu fframwaith parhaus o bolisiau i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

2 Pwrpas y Papur Testun hwn

Mae hwn yn un o gyfres o 14 Papur Testun sydd wedi eu llunio er mwyn llywio'r broses o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy (CDLIN). Eu nod yw dehongli'r dystiolaeth a'r canllawiau perthnasol mewn perthynas â'r testun penodol a nodi'r materion allweddol y bydd angen i'r Cynllun fynd i'r afael ag o yn ogystal â dulliau polisi i'w hymgorffori yn y Cynllun. Mae pob papur testun wedi eu llunio o dystiolaeth fanwl yn deillio o Bapurau Cefndir CDLI (dogfennau technegol sy'n ffurfio sail y dystiolaeth ar gyfer y CDLIN). Mae papurau testun wedi eu cynllunio i drafod meysydd testun allweddol sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yn y CDLI a fabwysiadwyd ac yn crynhoi'r data technegol sydd wedi ei gynnwys yn y Papurau Cefndirol fel bod y data a gyflwynir yn hygyrch i ddarllenwyr. Mae papurau testun yn gosod safle llinell sylfaen ac yn nodi materion allweddol sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol y bydd angen i'r CDLI Newydd fynd i'r afael â nhw.

Bwriad y Papurau Testun yw rhoi cyfle cynnar i fudd-ddeiliaid a'r cyhoedd i gyfrannu at y Cynllun. Mae'r papur testun hwn yn cynnwys materion allweddol yn ymwneud â chyfleusterau cymunedol.

3 Newidiadau Allweddol i Ddeddfwriaeth a Pholisi (ers mabwysiadu'r CDLI)

Mae sawl newid sylweddol wedi bod i bolisi'r Llywodraeth ac i'r amgylchedd gwleidyddol ers mabwysiadu'r CDLI. Mae'r adran hon yn archwilio'r pwyntiau allweddol sydd yn berthnasol i'r papur testun penodol hwn.


3.1 Cenedlaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd yn gwneud i gyrff cyhoeddus, megis Cyngorau, feddwl mwy am y tymor hir, cydweithio'n well â sefydliadau a chymunedau eraill i atal problemau a defnyddio dull mwy cysylltiol.

Mae gan y Ddeddf hon saith nod lles, sef:



Mae'n rhaid i'r holl gyrrff cyhoeddus y sonnir amdanynt yn y Ddeddf Llesiant ymgymryd â datblygu cynaliadwy.

“Mae'n rhaid i'r cam y mae corff cyhoeddus yn ei gyflawni i ddatblygiad cynaliadwy gynnwys:

- a. gosod a chyhoeddi amcanion (“amcanion lles”) sydd wedi'u llunio i wella ei gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau lles, a
- b. chymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni ei swyddogaethau) i fodloni'r amcanion hynny.”¹

Mae'r Ddeddf yn diffinio “datblygu cynaliadwy” fel proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ceisio cyrraedd y nodau lles.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio; hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal. Bydd pob un yn cael eu cynnwys ym mhroses y CDLIN.

Polisi Cynllunio

Gellir canfod y polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer adwerthu ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018). Mae wedi'i ddiwygio i ddarparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn seiliedig ar bedair thema nodedig sy'n cyfrannu at greu lle ac yn dod â gofynion y Ddeddf i gyd-destun y polisi cynllunio. Maent yn dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng polisiau cynllunio:

- Dewisiadau strategol a gofodol
 - Creu mannau cynaliadwy
 - Dyluniad Da
 - Hybu llefydd iachach
 - Yr iaith Gymraeg
 - Rheoli Cynaliadwy Adnoddau Naturiol
 - Cynllunio Strategol
 - Creu lle mewn ardaloedd gwledig
 - Rheoli ffurf anheddiad

¹Rhan 2 'Gwella Lles Adran 3 'dyletswydd lles ar gyrrff cyhoeddus' paragraffau (1) a (2)

- Mannau egniïol a chymdeithasol
 - Tai
 - Canolfannau adwerthu a masnachol
 - Cyfleusterau Cymunedol
 - Mannau Hamdden
 - Cludiant
- Mannau cynhyrchiol sy'n creu menter
 - Datblygu economaidd
 - Twristiaeth
 - Yr Economi Wledig
 - Isadeiledd Cludiant
 - Telathrebu
 - Ynni
 - Mwynau
 - Gwastraff
- Mannau nodedig a naturiol
 - Tirwedd
 - Ardaloedd Arfordirol
 - Yr Amgylchedd Hanesyddol
 - Isadeiledd Gwyrdd
 - Bioamrywiaeth
 - Dŵr, aer, seinwedd a golau
 - Llifogydd
 - Lleihau risg

Mae cyfleusterau cymunedol yn dod o dan y thema mannau egniïol a chymdeithasol a gall gynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd a mannau addoli. Maent yn cynnwys ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau a gellir eu darparu gan y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Maent y cyfrannu tuag at ymdeimlad o le, sydd yn bwysig ar gyfer iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol. Maent yn elfennau allweddol o gymunedau hyfyw a chynaliadwy.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu dull strategol a hirdymor ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol yn eu cynlluniau datblygu. Wrth lunio cynigion datblygu, dylid ystyried anghenion y gymuned a dylai cyfleusterau cymunedol barhau i ddiwallu anghenion preswylwyr lleol.

Dylid cadw a diogelu rhandiroedd, yn enwedig os ydynt yn rhan bwysig o'r seilwaith gwyrdd neu os oes ganddynt werth cymunedol. Mae gan rhandiroedd statudol amddiffyniad cyfreithiol. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu tir ar gyfer rhandiroedd i fodloni'r galw a nodir yn lleol. Dylai cynlluniau datblygu gynnwys dyraniadau ar gyfer unrhyw randir ychwanegol neu leoliad twf cymunedol sydd ei angen.

Mae Creu Lleoedd bellach yn ffurfio craidd Polisi Cynllunio Cymru a dylid ei groesawu wrth wneud cynlluniau a phenderfyniadau rheoli datblygu i gyflawni'r nod o greu mannau cynaliadwy yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Creu Lleoedd yn ddull aml-ddimensiwn o gynllunio, dylunio a rheoli dulliau o ddiogelu a gwella ardaloedd. Mae'n ymwneud ag ymateb i'r amgylchoedd drwy ddeall hanes a datblygiad lle, ei swyddogaeth ac, yn bwysicaf oll, ei drigolion a'u perthynas â'r ardal leol. Mae'r Cynllun wedyn yn ymwneud â darparu newid sy'n cyfrannu at ei nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'n defnyddio asedau

ac anghenion cymuned leol fel ysbrydoliaeth ar gyfer creu lleoedd da, gweithredol sy'n hyrwyddo iechyd, hapusrwydd a lles pobl.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 16 (2009) yn rhoi cyngor ar fannau agored. Mae rhandiroedd wedi'u cynnwys fel teipoleg yn y diffiniadau. Maent yn cael eu hystyried yn fannau gwyrdd pwysig sy'n gallu cyfrannu tuag at gynaliadwyedd, cynnig cyfleoedd hamdden ac ymarfer corff, darparu bwyd iach, gwella bioamrywiaeth ac annog rhyngweithio rhwng aelodau'r gymuned. Dylid gwarchod, hybu a rheoli rhandiroedd statudol (rhandiroedd ag arwynebau llai na 1,000 metr sgwâr) yn briodol a dylai'r rhandiroedd hyn fodloni'r galw lleol am rhandiroedd. Dylai pob safle gynnwys elfen o fywyd gwyllt.

Nid yw safonau'r ddarpariaeth wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru nac ychwaith yn NCT 16, dylid diffinio'r rhain yn lleol er mwyn diwallu'r angen a nodwyd. Mae'r NCT yn cyfeirio at safonau a awgrymir gan Feysydd Chwarae Cymru ar gyfer mathau eraill o fannau agored. Diweddarodd Meysydd Chwarae Cymru ei safonau meincnod yn 2015, a daeth yn amlwg mai'r canolrif o ran darpariaeth ar gyfer rhandiroedd, gerddi cymunedol a ffermydd trefol oedd 0.3 hectarau fesul 1,000 o'r boblogaeth.

Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn fecanwaith gwirfoddol sy'n caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr godi ffi safonol ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd, i ariannu'r isadeiledd sydd ei angen i gefnogi datblygiad yn yr ardal. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i dylunio i ddisodli'r system bresennol o rwymedigaethau cynllunio. Mae'r Cyngor yn symud ymlaen â rhoi'r Ardoll Seilwaith Cymunedol ar waith. Unwaith y bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i mabwysiadu, bydd yn effeithio ar sut y ceisir rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer cyfleusterau cymunedol.

Diweddarwyd Canllaw'r CDLI yn 2015, ar ôl i Gonwy fabwysiadu'r CDLI. Mae'n darparu arweiniad a chynghor ar gynhyrchu CDLI. Mae'n awgrymu rhestr o wybodaeth berthnasol ar gyfer sail dystiolaeth y CDLI. Mae capasiti isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; y gallu i ariannu isadeiledd a chysylltiadau rhwng A106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol; cyfyngiadau a chyfleoedd o ran yr amgylchedd, ecoleg, tirwedd a threftadaeth a hyfywedd datblygiad i gyd yn berthnasol i'r maes testun hwn. Nid oes dangosyddion yn cael eu hawgrymu ar gyfer cyfleusterau cymunedol.

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gynllun gofodol cenedlaethol ar gyfer Cymru. Bydd y cynllun hwn ar waith dros yr 20 mlynedd nesaf a bydd yn gosod materion strategol lefel uchel, yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer y 40 mlynedd nesaf ac amcanion yn canolbwyntio ar yr ardaloedd marchnad cryfaf, cymunedau ar draws Gymru, datgarboneiddio ac adnoddau naturiol. Mae papur materion ac opsiynau y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi bod yn destun ymgynghoriad diweddar ac mae Llywodraeth Cymru yn casglu ymatebion ar hyn o bryd. Yn ôl yr amserlen ddiweddaraf, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar waith erbyn mis Medi 2020.

Ysgolion yr 21ain Ganrif yw'r rhaglen buddsoddiad strategol hirdymor mewn adeiladu ysgolion yng Nghymru. Mae'n gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Mae Band B, yr ail don o fuddsoddiad, wedi'i gytuno ac wedi dechrau ym mis Ebrill 2019.

Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu rhandiroedd o dan Ddeddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908. Nid oes unrhyw safon wedi'i hargymell, fodd bynnag mae Adroddiad Thorpe, 1969, sy'n cynnig 15 llain fesul 1,000 o aelwydydd yn cael ei ddefnyddio'n aml. Oherwydd colled rhandiroedd, mae'r Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd yn argymhell isafswm o 20 llain fesul 1,000 o aelwydydd. Nid oes maint penodol wedi'i osod ar gyfer rhandir. Mae llain arferol oddeutu 250m². Byddai hyn yn gosod safon o 0.5 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd yn uwch na'r

cyfartaledd a ganfuwyd yng Nghymru gan Feysydd Chwarae Cymru o 0.3 hectar fesul 1,000 o'r boblogaeth. Dylai safon y CDLIN adlewyrchu'r galw lleol.

Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 yw'r gyfraith berthnasol ar gyfer tiroedd claddu. Gall tiroedd claddu unigol fod yn destun Deddfau Seneddol preifat hefyd. Mae rhagweld y galw am leoedd ar gyfer beddi a chanfod tiroedd ychwanegol ar gyfer claddedigaethau yn faterion perthnasol yn y CDLIN.

Dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964, mae'n ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon. Er mwyn monitro cydymffurfiaeth â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac mae gofyn i'r Cyngor gyflwyno Adroddiad Blynyddol yn manylu ar gydymffurfiaeth.

3.2 Rhanbarthol

Mae Deddf Cynllunio 2015 yn nodi y gall rhanbarth ystyried paratoi Cynllun Datblygu Strategol. O ran Gogledd Cymru, Cynllun Strategol Rhanbarthol Coridor yr A55 yw hwn. Bydd yn caniatáu i feysydd testun, yn cynnwys galw am dai, ardaloedd ar gyfer safleoedd cyflogaeth strategol a chefnogi isadeiledd cludiant, gael eu cynllunio mewn modd integredig a chynhwysol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am ddarparu ystod lawn o wasanaethau cynradd, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbyty aciwt ar draws Gogledd Cymru. Mae 17 o Feddygfeydd yn weithredol ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Bydd effaith dyraniadau'r CDLIN ar Feddygfeydd yn cael ei asesu a bydd tir newydd yn cael ei ddyrannu lle bo'r angen. Bydd angen gweithio'n agos â staff perthnasol o fewn BIPBC er mwyn cyflawni hyn.

3.3 Lleol

Pwrpas y Cynllun Corfforaethol yw cyflwyno Blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer y pum mlynedd nesaf, rhwng 2017 a 2022. Y blaenoriaethau ydi'r meysydd mae'r Cyngor eisiau rhoi sylw arbennig iddynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau ar gyfer dinasyddion.

Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus;
- Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
- Mae pobl yn iach ac yn egnïol.
- Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
- Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
- Mae pobl yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
- Mae pobl yng Nghonwy'n cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.

Ar draws pob maes gwaith mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu cenedlaethau'r dyfodol, gan geisio sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau gorau yn wyneb cyfyngiadau ariannol. Yn ogystal, mae'r Cynllun Corfforaethol yn ymrwymo i ystyried effaith y polisiau ar gymunedau gwledig, y rhai sy'n cael eu hamddiffyn gan y ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a phobl sy'n byw mewn tldi. Bydd y Cyngor hefyd yn hyrwyddo'r

Gymraeg, ac yn magu hyder i fod yn flaengar. Mae harneisio potensial technoleg i wella perfformiad, prosesau busnes ac effeithlonrwydd yn flaenoriaeth strategol hyd at 2022.

Mae amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a fydd yn dylanwadu ar strategaeth y CDLIN, yn cynnwys cyfleusterau cymunedol. Mae'r CDLI presennol yn seiliedig ar y data diweddaraf oedd ar gael ar y pryd, sy'n wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yn ddiweddarach. Bydd y CDLIN yn defnyddio'r un fethodoleg a'r un ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i lunio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ond bydd yn benodol ar gyfer Conwy a'r CDLIN. Gweler Papur Cefndir 1 a 2 i gael rhagor o fanylion.

Mae Cynllun Creu Lleoedd Abergele wrthi'n cael ei baratoi. Bydd yn cael ei ddarparu gan y gymuned leol a bydd hefyd yn eiddo i'r gymuned leol a phan fydd wedi'i lunio'n derfynol bydd yn gosod y materion sydd angen mynd i'r afael â nhw yn Abergele gyda Chynllun Gweithredu a Monitro wedi'i lunio i fynd i'r afael â'r materion hynny. Hon fydd y ddogfen gyfeirio leol er mwyn sicrhau cymuned well a chynaliadwy.

Ym mis Mai 2019, bu i Gabinet CBSC gymeradwyo rhaglen o waith yn y Fwrdeistref Sirol fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Deganwy, Capelulo, Gogarth, Uned Cyfeirio Disgyblion, Abergele, Llanfairfechan, Towyn / Bae Cinmel, Llandrillo yn Rhos a Llanddulas. Bydd rhai o'r ardaloedd hyn angen tir newydd i ddarparu ysgolion newydd. Yn dibynnu ar yr amserlen, gellir dyrannu hyn drwy'r CDLIN, neu drwy bolisiau'r CDLI presennol os oes angen y tir yn gynt. Bydd effaith unrhyw safle a ddyrannir gan y CDLIN ar gapasiti ysgolion yn cael ei ystyried. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ac wedi dyfarnu £43.1m mewn egwyddor i ddarparu'r rhaglen. Bydd y penderfyniad terfynol o ran pa fuddsoddiadau i'w gwneud ym mhob ardal yn cael ei wneud yn unigol gan aelodau CBSC. Mae Band C y rhaglen hefyd yn ystyriaeth ar gyfer y CDLIN, ac efallai y bydd angen dyrannu safleoedd. Mae angen gweithio'n agos gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg CBSC.

Mae 12 o safleoedd rhandir sy'n eiddo i'r Cyngor ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae rhestr aros ar gyfer rhandiroedd ar hyn o bryd. Dyrannodd y CDLI rai safleoedd rhandir. Cafwyd un safle yn Nwygyfylchi ac ar hyn o bryd gwneir paratodau i'w osod i grŵp cymunedol. Mae rhwymedigaethau cynllunio wedi'u ceisio gan geisiadau preswyl hyfyw. Bydd mabwysiadu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn effeithio ar sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau yn y dyfodol. Bydd sail dystiolaeth y galw am randoedd a dyraniadau'r CDLI yn cael eu hadolygu ar gyfer y CDLIN, a bydd safleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â hynny. Sefydlodd y CDLI presennol safon ar gyfer rhandiroedd, yn seiliedig ar y galw presennol yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd rhaid hefyd adolygu a diweddarau hyn.

Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gladdedigaethau o fewn yr 11 mynwent sydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Dyrannodd y CDLI safleoedd ar gyfer tiroedd claddu. Bydd sail dystiolaeth y galw am diroedd claddu a dyraniadau'r CDLI yn cael eu hadolygu ar gyfer y CDLIN, a bydd safleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â hynny.

Yn 2011, cytunwyd ar strategaeth i foderneiddio llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Conwy a nod y strategaeth hon yw darparu gwasanaeth llyfrgell teg a chynaliadwy. Ar hyn o bryd (2017 /18) mae Conwy yn cwrdd â phob un o'r hawliau craidd a 15 o'r 16 dangosydd ansawdd. Mae Canolfan Ddiwylliant newydd wedi'i chymeradwyo yng Nghonwy, a bydd y Ganolfan hon yn disodli llyfrgelloedd yng Nghonwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno. Mae'r Ganolfan wedi'i hariannu'n rhannol gan rwymedigaethau cynllunio a geisiwyd drwy bolisiau'r CDLI. Mae rhwymedigaethau cynllunio wedi'u ceisio gan geisiadau preswyl hyfyw. Bydd mabwysiadu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn effeithio ar sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau yn y dyfodol. Bydd effaith unrhyw safle a ddyrannir gan y CDLIN ar safonau llyfrgelloedd yn cael ei ystyried.

4 Polisi CDLI – Y Sefyllfa Bresennol

Cafodd y CDLI ei fabwysiadu yn Hydref 2013 a hyd yma mae wedi bod drwy'r broses Monitro Blynyddol bedair gwaith. Mae adran nesaf y papur testun hwn yn mynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol sydd wedi codi o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol. Mae chwech o bolisiau ar gyfleusterau cymunedol ym mholisiau'r CDLI presennol. Gweler y polisiau hyn ynghlwm wrth Atodiad 1.

5 Canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar y CDLI a Chasgliadau'r Adroddiad Adolygu

Mae un amcan CDLI yn berthnasol i gyfleusterau cymunedol:

- SO13 I ddiogelu a gwella hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau hanfodol, gan gynnwys gofod agored, rhandiroedd, iechyd, addysg a hamdden.

Mae canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos bod y polisiau cyfleusterau cymunedol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni'r amcan hwn. Mae mynediad at y gwasanaethau hyn wedi'i ddiogelu. Mae ceisiadau ar gyfer ysgolion newydd a'r Ganolfan Ddiwylliant wedi'u cymeradwyo yn unol â pholisiau'r CDLI a darparwyd ar gyfer rhandir cymunedol bychan yn Nwygyfylchi.

Daeth Adroddiad Adolygu'r CDLI i'r casgliad bod angen rhoi'r camau gweithredu canlynol ar waith ar gyfer polisiau cyfleusterau cymunedol:

Polisi	Sylwadau
CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol ac yn adlewyrchu'r newid yn y polisi cenedlaethol. Diwygio i gael gwared ar safleoedd sydd wedi'u darparu.
CFS/9 – Diogelu Rhandiroedd	Gweithredu'n effeithiol – efallai y bydd angen gwneud mân newidiadau.
CFS/10- Rhandiroedd Newydd	Diwygio i gael gwared ar safleoedd sydd wedi'u darparu. Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf yn cynnwys dyrannu safleoedd newydd os oes angen.
CFS/14 – Dyraniad Tir Claddu Newydd	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol.
CFS/15 – Cyfleusterau Addysgol	Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol.

Yn dilyn adolygiad dilynol o'r sail dystiolaeth, mae Adran 8 o'r papur hwn yn mynd i'r afael â'r tabl uchod unwaith eto ac yn gwneud argymhellion o ran sut y dylid newid pob polisi i adlewyrchu'r sail dystiolaeth ddiweddaraf i'w gweithredu yn y CDLIN.

6 Sail Dystiolaeth CDLI wedi'i Diweddarau

Bydd y papur cefndir canlynol yn llywio polisiau cyfleusterau cymunedol yn y CDLIN.

6.1 Papur Cefndir 30: Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Rhandiroedd

Mae'r papur cefndir hwn wedi'i gwblhau ac yn dangos y galw canlynol am randiroedd ym mhob ardal. Mae tir wedi'i ddyrannu ar y Safleoedd Strategol yn Llanfairfechan, Llanrhos, Llanrwst a Hen Golwyn i ddiwallu'r galw hwn.

Anheddiad	Nifer ar y rhestr	Anheddiad	Nifer ar y rhestr
Creuddyn		Gorllewin	
Conwy	32	Llanfairfechan	11
Deganwy	5	Penmaenmawr	27
Cyffordd Llandudno	11	Dwygyfylchi	-
Llandudno	27	Dwyrain	
Bae Penrhyn	6	Abergele	26
Canolog		Towyn	2
Llandrillo-yn-Rhos	30	Gwledig	
Bae Colwyn	25	Llanrwst	7
Hen Golwyn	15	Trefriw	20
Mochdre	-	Gwledig arall	17

6.2 Papur Cefndir 31: Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Claddfeydd

Mae'r papur cefndir hwn i ddilyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu angen ac mae swyddogion yn cydweithio â Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau CBSC i sefydlu galw.

6.3 Papur Cefndir 44: Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol

Mae'r papur cefndir hwn i ddilyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith. Mae swyddogion CBSC yn cydweithio â staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr perthnasol i sicrhau bod yr effaith ar safleoedd gofal iechyd sylfaenol yn cael ei asesu a'i liniaru lle bo'r angen fel rhan o'r CDLIN.

6.4 Papur Cefndir 45: Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg

Mae'r papur cefndir hwn wedi'i gwblhau ac mae'n rhan o ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir. Mae tir newydd ar gyfer ysgolion wedi'i gynnwys yn y dyraniadau Safleoedd Strategol yn Llanfairfechan, Llanrhos ac Abergele. Mae'n debyg y bydd angen dyrannu rhagor o dir yn y cam Archwilio gan y Cyhoedd i ddarparu'r holl welliannau a gynigir yn rhaglen Band B. Mae effaith y datblygiad preswyl newydd wedi'i ystyried wrth ystyried capasiti ysgol yn yr ardal i sicrhau y gall ysgolion presennol neu ysgolion newydd arfaethedig dderbyn y twf.

7 Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae gwaith ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi dechrau. Bydd y polisiâu ar gyfer cyfleusterau cymunedol yn y CDLIN yn rhoi sylw iddo a bydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd.

Mae Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn amlinellu'r dull arfaethedig o ran Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLIN, yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, i sicrhau ei

fod yn cyflawni ei amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Aseiad Amgylcheddol Strategol yn broses bwysig o ran nodi meysydd sy'n newid a mesurau lliniaru i sicrhau bod y CDLIN yn gynaliadwy ac yn cydymffurfio â Deddf Cynllunio (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ran cyfleusterau cymunedol yr amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd perthnasol arfaethedig yw:

- Iechyd a Lles: Gwella iechyd a lles y boblogaeth, yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, lles cymdeithasol a diogelwch cymunedol.
- Cydraddoldeb a Chynhwysiad Cymdeithasol: Lleihau tldi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, drwy wella mynediad at gyfleusterau cymunedol.
- Treftadaeth Ddiwylliannol: Diogelu, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r asedau diwylliannol, yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg.

8 Polisiâu a Chynigion Defnydd Tir Posibl

Bydd y CDLIN yn rhoi polisi cenedlaethol ar waith yn lleol. Bydd cyfleusterau cymunedol yn cael eu diogelu. Bydd safleoedd yn cael eu dyrannu, lle bo hynny'n briodol, i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Awgrymir y bydd angen diwygio'r polisiâu canlynol fel rhan o Adolygiad y CDLI.

Polisi	Sylwadau
CFS/1 – Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol	Cyfeiriad at fannau agored a bydd rhaid dileu manwerth gan fod rhan bellach yn feysydd testun ar wahân. Diwygio i gael gwared ar safleoedd sydd wedi'u darparu. Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf, yn cynnwys unrhyw ddyraniad newydd sy'n ofynnol ac yn adlewyrchu'r newid yn y polisi cenedlaethol.
CFS/9 – Diogelu Rhandiroedd	Dim ond mân newidiadau sydd angen eu gwneud i'r polisi hwn.
CFS/10- Rhandiroedd Newydd	Diwygio i gael gwared ar safleoedd sydd wedi'u darparu. Adolygu i gynnwys y sail dystiolaeth ddiweddaraf yn cynnwys dyrannu safleoedd newydd lle bo'r angen.
CFS/14 – Dyraniad Tir Claddu Newydd	Bydd hwn yn cael ei adolygu wedi i'r angen am safleoedd claddfeydd newydd gael ei sefydlu ac wedi i safleoedd newydd gael eu canfod.
CFS/15 – Cyfleusterau Addysgol	Bydd hyn yn cael ei adolygu i gynnwys unrhyw ofyniad ychwanegol o ran tir i ddarparu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a darparu ar gyfer y cyfleusterau ysgol ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i'r CDLI.

Yn ychwanegol, efallai y bydd angen i bolisiâu newydd gynnwys y materion canlynol:

Thema	Cyfiawnhad
Polisi i ddyrannu cyfleusterau iechyd newydd	Efallai y bydd angen safleoedd newydd, neu estyniadau i safleoedd gofal iechyd sylfaenol neu eilaidd presennol i ddiwallu anghenion y boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio.

9 Yr Angen am Sail Dystiolaeth Bellach

Ystyrir diweddariad i'r sail dystiolaeth ganlynol yn angenrheidiol:

- Diweddaru Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Rhandiroedd
- Adolygu a diweddaru Adroddiad Galw a Chyflenwad Safleoedd Claddfeydd
- Llunio'r Papur Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Iechyd/Gofal Sylfaenol
- Diweddaru Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg i gynnwys yr holl safleoedd preswyl a ddyrannwyd a fydd yn cael eu cynnwys yn y CDLIN.

10 Casgliad

Mae polisiâu cyfleusterau cymunedol, ar y cyfan, wedi cyflawni Gweledigaeth y CDLI a'r amcan yr oeddent am ei gyflawni. Mae ceisiadau ar gyfer ysgolion newydd a'r Ganolfan Ddiwylliant wedi'u cymeradwyo darparwyd ar gyfer rhandir cymunedol bychan yn Nwygyfylchi. Llwyddwyd i dderbyn cyfraniadau ariannol ar gyfer rhandiroedd, ysgolion a llyfrgelloedd. Pe bai'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei fabwysiadu, bydd yn effeithio ar sut y bydd cyfraniadau gan ddatblygwyr yn cael eu ceisio yn y dyfodol.

Bydd angen i Swyddogion sicrhau bod unrhyw angen am gyfleusterau cymunedol yn cael ei ddiwallu yn ystod proses y CDLIN. Hysbysir hyn drwy sail dystiolaeth wedi'i diweddaru a chydweithio agos â'r gwasanaethau Cyngor perthnasol a'r GIG.

11 Atodiad 1: Polisiâu CDLI Presennol

POLISI STRATEGOL CFS/1 – CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU CYMUNEDOL

Bydd y Cyngor yn amddiffyn a, lle mae hynny'n bosib, gwella cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol trwy:

- a) Warchod a gwella bywiogrwydd, cymeriad atyniadol a hyfywedd y canolfannau adwerthu yn Ardal y Cynllun trwy leoli datblygiad adwerthu priodol yn unol â Pholisi CFS/2 – 'Hierarchaeth Adwerthu';
- b) Defnyddio dull gweithredu dilynol wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer datblygiad adwerthu newydd yn Ardal y Cynllun yn nhermau dewis safle a sicrhau bod safleoedd amgen addas ar gael yn unol â Pholisi DP/6 – 'Canllawiau a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol';
- c) Gwarchod y cynnig adwerthu yn Llandudno a'r canol trefi trwy ddynodi prif ardaloedd siopa a / neu barthau siopa yn unol â Pholisiâu CFS/3 - 'Prif Ardaloedd Siopa' a CFS/4 – 'Parthau Siopa';
- d) Gwarchod cynnig adwerthu Llandudno trwy ddynodi Parc Llandudno a Mostyn Champney fel parciau adwerthu lle bydd adwerthu graddfa fawr yn cael ei ganoli a'i ddiogelu yn unol â Pholisi CFS/5 – 'Parciau Adwerthu';
- e) Diogelu cyfleusterau cymunedol y tu allan i Landudno, Bae Colwyn a'r Canolfannau Ardal yn unol â Pholisi CFS/6 – 'Diogelu Cyfleusterau Cymunedol y tu allan i'r Ganolfan Isranbarthol a Chanol Trefi';
- f) Gwarchod a gwella cymeriad atyniadol canolfannau siopa trwy ganiatáu blaen siop priodol a mesurau diogelwch blaen siop priodol yn unig yn unol â Pholisiâu CFS/7 – 'Dylunio Blaen Siopau' a CFS/8 – 'Diogelwch Blaen Stryd Siopa';
- g) Cwrdd ag angen y gymuned am Lotments drwy ddiogelu Lotments presennol yn unol â Pholisi CFS/9 – 'Diogelu Lotments' a dyrannu tir ar gyfer lotments newydd yn Abergele, Cyffordd Llandudno a Dwygyfylchi yn unol â Pholisi CFS/10 – 'Lotments Newydd';
- h) Sicrhau bod datblygiad tai newydd yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion mannau agored y trigolion a diogelu mannau agored presennol yn unol â Pholisiâu CFS/11 – 'Datblygu a Mannau Agored' a CFS/12 – 'Diogelu Mannau Agored';
- i) Dyrannu caeau chwarae newydd a darnau newydd o dir ar gyfer mannau agored yn Abergele a Glan Conwy yn unol â Pholisi CFS/13 – 'Dyrannu Mannau Agored Newydd';
- j) Dyrannu tir ar gyfer ymestyn y mynwentydd yn Llanrwst a Phenmaenmawr yn unol â Pholisi CFS/14 – 'Dyrannu Tir Claddu Newydd';
- k) Datblygu cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau addysg yn unol â Pholisi CFS/15 – 'Cyfleusterau Addysg'.

POLISI CFS/6 – DIOGELU CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL Y TU ALLAN I'R GANOLFAN ISRANBARTHOL A CHANOL TREFI

Lle nad oes cyfleusterau tebyg yn bodoli y tu allan i Landudno, Bae Colwyn, Abergele, Conwy, Cyffordd Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst a Phenmaenmawr, caniateir datblygiad a fyddai'n arwain at golli'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn unig lle dangoswyd yn glir nad yw'r adeilad bellach yn hyfyw ar gyfer ei ddefnydd presennol ac nad oes unrhyw angen cymunedol mwyach am y cyfleusterau hynny:

- a) Siopau sy'n gwerthu nwyddau cyfleus
- b) Swyddfeydd Post
- c) Gorsafoedd petrol
- d) Neuadd pentref/eglwys
- e) Tafarndai

POLISI CFS/9 – DIOGELU LOTMENTS

Ni roddir Caniatâd Cynllunio i ddatblygiad sy'n arwain at golli tir a ddefnyddir ar gyfer Lotments, ac eithrio;

- a) Lle mae hynny'n addas, gwneir darpariaeth amgen sydd o leiaf yn gyfwerth o ran maint ac ansawdd i'r hyn a gollir, neu;
- b) Lle gellir dangos nad oes angen cymunedol mwyach am y Lotments.

POLISI CFS/10 – LOTMENTS NEWYDD

1. Dyrennir tir i gwrdd â'r galw am Lotments newydd yn y lleoliadau canlynol:

- a) Oddi ar Ffordd Rhuddlan, Abergele
- b) Esgyryn, Cyffordd Llandudno
- c) Gogledd Llanrwst
- d) Gogledd Groesffordd, Dwygyfylchi
- e) Gorllewin Gwrych Lodge, Abergele

2. Gellir adnabod tir ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun yn unol â'r Egwyddorion Datblygu.

POLISI CFS/14 – DYRANIADAU TIR CLADDU NEWYDD

Mae tir yn cael ei ddyrannu i ddiwallu'r angen am dir claddu newydd yn Llanrwst ac ym Mhenmaenmawr yn gyfagos i'r mynwentydd presennol. Gellir nodi tir ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun yn unol â'r Egwyddorion Datblygu.

POLISI CFS/15 – CYFLEUSTERAU ADDYSG

Bydd Cynigion Datblygu ar gyfer ysgolion newydd yn ystod cyfnod y Cynllun yn cael eu cefnogi os ydynt yn unol â'r Egwyddorion Datblygu.